



NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

**Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012 am 10.00 am
Tuesday, 17 July 2012 at 10.00 am**

Bodlondeb, Conwy

Ynys Môn/Isle of Anglesey	Michael Wilson – Cadeirydd/Chair Islwyn Jones – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Lynn Ball – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Robyn Jones – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Conwy	Howie Roberts – Cadeirydd/Chair (Cadeirydd/Chair) Samuel Adams – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Delyth Jones – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Ceri Williams – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Sir Ddinbych/Denbighshire	Clive B. Halliday – Cadeirydd/Chair Geraint F. Roberts – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Gary Williams – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Sir y Fflint/Flintshire	Merfyn Roberts – Cadeirydd/Chair Kevin Sibbons – Is-Gadeirydd/Vice-Chair (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) Anwen Jones – Swyddog Monitro/Monitoring Officer
Gwynedd	Gwilym Ellis Evans – Cadeirydd / Chair Sam Soysa – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Dilys Ann Phillips – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Sion Huws – Swyddog Priodoldeb/Propriety Officer
Wrecsam/Wrexham	Rob Dawson – Cadeirydd/Chair Ceri Nash – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Trevor Coxon – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Sioned Wyn Davies – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Awdurdod Tân ac Achub/ Fire and Rescue Authority	Jane Eyton-Jones – Cadeirydd Dros Dro/Acting Chair
Parc Cenedlaethol Eryri/ Snowdonia National Park	Peter Rowland – Cadeirydd/Chair

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Cofnodion**

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir (*Tudalennau 3 - 5*)

3. **Atborth o'r Sesiynau Hyfforddiant**

Derbyn atborth gan bob Cyngor ar y Sesiynau Hyfforddiant Cod Ymddygiad a gynhaliwyd ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2012.

4. **Cynhadledd Safonau 2013**

Trafod trefniadau Cynhadledd Safonau 2013.

5. **Euogfarnau Troseddol Cynghorwyr**

Trafod euogfarnau troseddol Cynghorwyr a gofyn am brofiadau, os o gwbl, o ddelio gyda'r mater hwn.

6. **Mynediad i Gyfarfodydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

I drafod a ddylai Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru fod yn agored i'r cyhoedd.

7. **Unrhyw Eitem Arall**

Os bydd y larwm tân yn canu, dylai'r Aelodau fynd allan o'r adeilad drwy'r allanfa dân agosaf.

MANNAU YMGYNNULL, edrychwch ar y rhybudd "Beth i'w wneud os bydd tân" sydd i'w weld yn Siambr y Cyngor / Ystafell Bwyllgor Ganolig / Ystafell Bwyllgor 3

FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU 2

Dydd Llun, 23 Ebrill 2012 at 2.00 pm
Venue Cymru, Promenade, Llandudno

YN BRESENNOL:	Howie Roberts (Cadeirydd)	Cadeirydd - Conwy
	Samuel Adams Lynn Ball Celia Blomeley	Is-Gadeirydd- Conwy Swyddog Monitro – Ynys Môn Pwyllgor Safonau – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Alwen Davies	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Gwilym Ellis Evans Cynghorydd Gail Hall (Ar ran Peter Rowland)	Is-Gadeirydd - Gwynedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Clive B. Halliday Sion Huws Anwen Jones Islwyn Jones Lisa Jones Gareth Owens Geraint F. Roberts Kevin Sibbons Ceri Williams Gary Williams Michael B. Wilson	Gadeirydd – Sir Ddinbych Swyddog Eiddo - Gwynedd Swyddog Monitro – Sir y Fflint Is-Gadeirydd – Ynys Môn Dirprwy Swyddog Monitro – Sir Ddinbych Swyddog Monitro – Sir y Fflint Is-Gadeirydd – Sir Ddinbych Is-Gadeirydd – Sir y Fflint Dirprwy Swyddog Monitro - Conwy Swyddog Monitro – Sir Ddinbych Cadeirydd – Ynys Môn
Hefyd yn Bresennol:	Cerys Thomas Peter Tyndall	Un Llais Cymru Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Swyddogion:	Sian Harland	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor

38. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Delyth Jones (Conwy), Dilys Ann Philips (Gwynedd), Ceri Nash (Wrecsam), Jane Eyton-Jones (Awdurdod Tân ac Achub) a Peter Rowland (Parc Cenedlaethol Eryri).

39. COFNODION

Mewn perthynas â chofnod 36 – Cynhadledd Safonau 2012, awgrymwyd y gellid cynnal y Gynhadledd yng Ngholeg Llandrillo neu yn Llandudno.

40. YMAGWEDD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU TUAG AT ASESU CWYNIION COD YMDDYGIAD

Cyflwynwyd ymagwedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru tuag at Aseu Cwynion Cod Ymddygiad.

41. **CYFLWYNIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Rhodddwyd cyflwyniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Fforwm Safonau Gogledd Cymru.

Yn y cyflwyniad tynnwyd sylw at y canlynol:

- Nifer y cwynion a dderbyniwyd hyd at fis Mawrth - 412; cwynion newydd wedi codi 49% ers y flwyddyn flaenorol, y rhan fwyaf o gwynion yn dod o dan Diffyg dangos parch
- 19 wedi eu hatgyfeirio i Bwyllgorau Safonau/Panel Dyfarnu
- Heb ymchwilio i 280 o gwynion
- Proses ar gyfer ymchwilio i gŵyn a gosod sancsiynau
- Rôl Pwyllgor Safonau yn arbennig mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned
- Canllawiau i'w hailgyhoeddi i gyd-fynd â'r Etholiadau - canllawiau ar wahân i Awdurdodau Lleol, a Chynghorau Tref a Chymuned
- Gellid ymdrin â rhai cwynion gan aelod am aelod arall o dan y protocol lleol ond efallai bod angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer hyn. Pryder bod rhai cynghorau cymuned yn cymryd llawer mwy o amser nag y dylid
- Mae indemniadau a'r problemau'n gysylltiedig â lefel cynrychiolaeth yn debygol o arwain at osod terfyn. Teimlai'r Ombwdsmon fod £10,000 yn briodol ond roedd CLILC o blaid £20,000
- Hyfforddiant i Aelodau i gynnwys y canllawiau a ailgyhoeddir
- Credir bod hyfforddiant gorfodol ar y Cod yn syniad da, o bosibl fod ei angen ar aelodau'r pwyllgor craffu trwyddedu a'r Cabinet. Mae Sir Ddinbych wedi gweithredu hyn yn eu cod.
- Awgrymwyd i'r Ombwdsmon y byddai penderfyniadau Achosion ar y wefan yn fuddiol a phwysleisiodd fod crynodebau ar gael o bryd i'w gilydd.

Diolchodd Aelodau i'r Ombwdsmon am fynychu'r Fforwm a'r drafodaeth a ddilynodd ar y pynciau a godwyd yn y cyflwyniad.

42. **CYFLWYNIAD GAN SWYDDOG DATBLYGU UN LLAIS CYMRU**

Rhodddwyd cyflwyniad i Aelodau gan Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.

Yn y cyflwyniad tynnwyd sylw at y canlynol:

- Cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned - 75% yn Aelodau
- Cyngor uniongyrchol ar gael i Gadeiryddion a Chlercod
- Nid yw'n helpu aelodau gydag anghydfod aelodau
- Rhaglen Hyfforddiant - 5/6 modiwl yn cynnwys modiwl Cod Ymddygiad a ddatblygwyd yn ddiweddar, sesiynau 2 awr dwyieithog
- £350 i hyfforddi 20 o bobl – yn fodlon hyfforddi rhai nad ydynt yn aelodau
- Bydd pecyn adnoddau ar gael

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog Datblygu am ei gyflwyniad.

43. **UNRHYW EITEM ARALL**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf 2012 (dyddiad i'w gadarnhau).

Pynciau i gynnwys: Adborth o'r sesiynau hyfforddi

(Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm)

Nodyn Presenoldeb

Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

Cyfeirnod y Mater: C-015386-RWJ
Enw'r Mater: Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru
Mynychwyd gan: Lynn Ball
Mynychwyd gyda:

Dyddiad Mynychu: 17 Gorffennaf 2012
Cofnodwyd ar: 17 Gorffennaf 2012
Pwnc: Nodyn – Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru 17 Gorffennaf 2012

Eitem 3 – Atborth o sesiynau hyfforddi

- Mae Hyfforddiant ar y Côd yn orfodol yng Nghyngor Sir Ddinbych i bob Aelod newydd. Cymeradwywyd y polisi hwn gan y Cyngor llawn. Cytunwyd nad yw'n ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd ac o'r herwydd, nid oes modd gorfodi'r polisi.
- Mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi ceisio defnyddio cyfuniad o berswâd a hunan-les i sicrhau fod Aelodau'r Cyngor Sir yn mynychu hyfforddiant ar y Côd oherwydd gall methiant i ymgymryd â hyfforddiant dros gyfnod maith gael effaith andwyol ar unrhyw gosb a orfodir os caiff yr Aelod ei gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Awgrymwyd hefyd y gallai "enwi a chodi cywilydd" weithio os yw Aelodau'n methu â mynychu hyfforddiant dros gyfnod sylweddol o amser.
- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ymateb i'r ymgynghori ar y Papur Gwyn a chytunwyd yn y pen draw bod y Fforwm Pwyllgorau Safonau'n dymuno ymateb i'r ymgynghori i'r perwyl y dylai hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad fod yn orfodol i Aelodau'r holl brif Gynghorau gyda'r angen i ddiweddarar/gloywi yn rheolaidd - unwaith yn ystod oes pob Cyngor dyweder.
- Cytunwyd y dylid defnyddio Pecyn Cynefino CLILC i sicrhau cysondeb hyfforddiant.
- Mewn perthynas â Chynhadledd Safonau, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor fynd â'r mater yn ôl i'w Hawdurdodau i gael barn ar y math o faterion yr hoffai'r Aelodau eu gweld yn cael sylw, p'un aitrwy gyfrwng cyflwyniad neu weithdy ac ati. Byddai'n ddefnyddiol anfon y wybodaeth hon i'r Fforwm cyn y cyfarfod nesaf ar 4 Hydref 2012.
- Cytunwyd y cynhelir y Gynhadledd Safonau ym mis Ebrill 2012 ond tua chanol neu ddiwedd y mis er mwyn osgoi'r Pasg.

Eitem 6 Unrhyw Fater Arall

- Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Fforwm am 10am ar 4 Hydref 2012
- Bydd Pwyllgorau Safonau'n ymateb yn unigol i'r ymgynghori ynghylch a ddylid sefydlu Pwyllgor Safonau Rhanbarthol ai peidio a sut y byddai'n gweithredu. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch arwyddocâd gwybodaeth leol o gymharu â barn wrthrychol annibynnol.

- Cytunwyd y byddai'n briodol i LB gysylltu gyda Swyddogion Monitro eraill i gael gwybodaeth ynghylch nifer y gwrandawriadau Pwyllgor Safonau, gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd arbennig, a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

**FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM**

**Dydd Iau, 4 Hydref 2012 am 10.00 am
Thursday, 4 October 2012 at 10.00 am**

Bodlondeb, Conwy

Ynys Môn/Isle of Anglesey	Michael Wilson – Cadeirydd/Chair Islwyn Jones – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Lynn Ball – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Robyn Jones – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Conwy	Howie Roberts – Cadeirydd/Chair (<i>Cadeirydd/Chair</i>) Samuel Adams – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Delyth Jones – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Ceri Williams – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Sir Ddinbych/Denbighshire	Clive B. Halliday – Cadeirydd/Chair Geraint F. Roberts – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Gary Williams – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Sir y Fflint/Flintshire	Merfyn Roberts – Cadeirydd/Chair Kevin Sibbons – Is-Gadeirydd/Vice-Chair (<i>Is-Gadeirydd/Vice-Chair</i>) Anwen Jones – Swyddog Monitro/Monitoring Officer
Gwynedd	Gwilym Ellis Evans – Cadeirydd / Chair Sam Soysa – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Dilys Ann Phillips – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Sion Huws – Swyddog Priodoldeb/Propriety Officer
Wrecsam/Wrexham	Rob Dawson – Cadeirydd/Chair Ceri Nash – Is-Gadeirydd/Vice-Chair Trevor Coxon – Swyddog Monitro/Monitoring Officer Sioned Wyn Davies – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer
Awdurdod Tân ac Achub/ Fire Authority and Rescue Authority	Jane Eyton-Jones – CadeiryddDros Dro/Acting Chair
Parc Cenedlaethol Eryri/ Snowdonia National Park	Peter Rowland – Cadeirydd/Chair

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Cofnodion**

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir (*Tudalennau 3 - 7*)

3. **Cynhadledd Safonau 2013**

Trafod syniadau ar gyfer cyflwyniadau a gweithdai posibl ar gyfer Cynhadledd Safonau 2013.

4. **Canllaw Diwygiedig Cod Ymddygiad yr Ombwdsman**

(*Tudalennau 8 - 9*)

5. **Unrhyw Eitem Arall**

Os bydd y larwm tân yn canu, dylai'r Aelodau fynd allan o'r adeilad drwy'r allanfa dân agosaf.

MANNAU YMGYNNULL, edrychwch ar y rhybudd "Beth i'w wneud os bydd tân" sydd i'w weld yn Siambr y Cyngor / Ystafell Bwyllgor Ganolig / Ystafell Bwyllgor 3

FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU 2

Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012 am 10.00am
Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL:	Howie Roberts (Cadeirydd)	Cadeirydd - Conwy
	Lynn Ball	Swyddog Monitro – Ynys Môn
	Sioned Wyn Davies	Dirprwy Swyddog Monitro - Wreccsam
	Siôn Huws	Swyddog Priodoldeb - Gwynedd
	Islwyn Jones	Is-Gadeirydd – Ynys Môn
	Dilys Ann Phillips	Swyddog Monitro - Gwynedd
	Geraint F. Roberts	Is-Gadeirydd – Sir Ddinbych
	Peter Rowland	Cadeirydd – Parc Cenedlaethol Eryri
	Ceri Williams	Dirprwy Swyddog Monitro - Conwy
	Michael B. Wilson	Cadeirydd – Ynys Môn
Hefyd Bresennol:	yn Siân Harland	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor

44. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Delyth Jones (Conwy), Gary Williams (Sir Ddinbych), Lisa Jones (Sir Ddinbych), Kevin Sibbons (Sir y Fflint), Sam Soysa (Gwynedd), Gwilym Ellis Evans (Gwynedd), Ceri Nash (Wreccsam), Trevor Coxon (Wreccsam) a Jane Eyton Jones (Awdurdod Tân ac Achub).

45. COFNODION

Mewn perthynas â'r rhestr bresenoldeb yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd bod y Cynghorydd Gail Hall yn cynrychioli Parc Cenedlaethol Eryri, yn lle Peter Rowland, ac nid Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

CYTUNWYD-

Cadarnhau cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2012 fel cofnod cywir, yn amodol ar y newid uchod.

46. ATBORTH O'R SESIYNAU HYFFORDDIANT

Rhoddodd Aelodau atborth ar Sesiwn Hyfforddiant y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr Sir, ar ôl etholiadau mis Mai 2012:-

Conwy

- Etholwyd 21 Cynghorydd newydd, ac roedd pob un ond un yn bresennol yn y sesiynau hyfforddiant
- Roedd y sesiynau hyfforddiant yn rhyngweithiol iawn, gyda digon o ymholiadau gan Gynghorwyr
- Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â'r Arweinwyr Grwpiau i'w llongyfarch ar lefelau presenoldeb a'r record dda ar y Cod Ymddygiad, oedd wedi'i chynnal yng Nghonwy
- Byddai dwy sesiwn Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal ym mis Medi 2012, gyda'r disgwyliad y byddai'r Clercod yn hyfforddi eu Cynghorwyr Cymuned eu hunain.

Sir Ddinbych

- Gwnaed Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol i Gynghorwyr yn Sir Ddinbych drwy newid Cyfansoddiad y Cyngor, er hynny, nodwyd nad oedd trefniadau gorfodi wedi'u profi.
- Roedd 42 o'r 47 Cynghorydd wedi derbyn hyfforddiant a byddai sesiwn arall yn cael ei chynnal ar gyfer y 5 Cynghorydd Sir arall
- Byddai hyfforddiant yn cael ei gynnig i Gynghorau Cymuned yn y dyfodol agos, gyda sesiynau unigol yn cael eu cynnal ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned; roedd hyn yn sgil y nifer uchel o gwynion Aelod yn erbyn Aelod a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, yn enwedig gan Gyngor Tref Prestatyn

Gwynedd

- Anogwyd Cynghorwyr i dderbyn hyfforddiant a bu newid diwylliannol
- O'r 75 Cynghorydd, roedd dros hanner wedi derbyn hyfforddiant, gyda phob Cynghorydd newydd yn bresennol

Wrecsam

- Roedd Wrecsam hefyd wedi llwyddo i hyfforddi eu Cynghorwyr newydd

Ynys Môn

- Ni fydd Etholiadau'n cael eu cynnal ar Ynys Môn tan fis Mai 2013

Cafwyd trafodaeth bellach ar y materion a ganlyn:-

- Byddai Cynghorwyr a oedd yn fwriadol wedi methu mynd i'r sesiynau hyfforddiant, mwy na thebyg yn derbyn cosb lymach gan yr Ombwdsmon pe bai cwyn yn eu herbyn yn cael ei chefnogi
- Gallai enwi a chodi cywilydd ar Gynghorwyr mewn cyfarfodydd Pwyllgor Safonau atal apathi o safbwynt derbyn hyfforddiant
- Nid oedd gan yr Ombwdsmon y grym i wneud Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol, Llywodraeth Cymru oedd â'r grym i wneud hyn
- Gan fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Papur Gwyn 'Hyrwyddo Democratiaeth Leol' ar hyn o bryd, gallai'r Fforwm wneud argymhelliad drwy'r ymgynghoriad hwnnw, y dylid gwneud Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol i bob Cynghorydd Sir yng Nghymru

- Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i wneud hyfforddiant yn orfodol i Gynghorwyr Cymuned, ond deallwyd y gallai hyn achosi problemau adnoddau i Awdurdodau Lleol. Yn ogystal, gallai atal pobl rhag sefyll ar Gynghorau Tref a Chymuned
- Awgrymwyd y gellid creu tystysgrif ar gyfer Cynghorwyr Sir, a oedd yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi, i osgoi'r angen i fynd i sesiynau eraill a ddarparwyd gan gyrrff allanol, fel Parc Cenedlaethol Eryri
- Pe bai'n orfodol, dylai Cynghorwyr Sir, a oedd wedi derbyn hyfforddiant yn y gorffennol fynd i sesiynau diweddar
- Y Pwyllgor Safonau dan sylw ddylai benderfynu ar unrhyw gosbau am beidio derbyn hyfforddiant
- Cytunodd Aelodau y dylid rhoi gwybod i'r Ombwdsmon ynglŷn ag argymhelliad y Fforwm

CYTUNWYD

- (a) **Dylid, drwy'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Hyrwyddo Democratiaeth Leol, gofyn i Lywodraeth Cymru wneud Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol i Gynghorwyr Sir ledled Cymru, gyda chosbau am beidio derbyn hyfforddiant yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgorau Safonau.**
- (b) **Dylid rhoi gwybod i'r Ombwdsmon ynglŷn ag argymhelliad y Fforwm**

47. **CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Dyweddodd Swyddog Monitro (Gwynedd) ei bod, fel Cadeirydd Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan, yn falch o gyhoeddi bod y Grŵp yn ddiolchgar am wahoddiad y Fforwm i gynnal y gynhadledd nesaf yng Ngogledd Cymru.

Gofynnwyd i Aelodau ddarparu unrhyw syniadau ar gyfer cynnal y gynhadledd. Mewn blynyddoedd blaenorol cafwyd Cyflwyniadau a Gweithdai.

Awgrymwyd y dylid cynnal y gynhadledd tuag at ddiwedd mis Ebrill 2013.

Gwnaed cais i wahodd Aelodau Annibynnol i gyfarfodydd y Grŵp Swyddogion Monitro, pan fyddent yn trafod y gynhadledd i ganiatáu mewnbyn o'u safbwynt nhw, er mwyn cynnig safbwynt gwahanol.

CYTUNWYD

- Dylai pob Pwyllgor Safonau drafod y gynhadledd a bwydo unrhyw syniadau yn ôl i gyfarfod nesaf y Fforwm.**

48. **EUOGFARNAU TROSEDDOL CYNGHORWYR**

Dyweddodd y Dirprwy Swyddog Monitro (Conwy) bod protocol yng Nghonwy i Gynghorwyr, mewn swyddi sensitif, dderbyn gwiriadau CRB (Biwro Cofnodion Troseddol). Nodwyd y byddai deddfwriaeth newydd yn

lleihau'r nifer o feysydd lle byddai angen i Gynghorwyr dderbyn gwiriad CRB. Pe bai unrhyw beth yn codi o'r gwiriad CRB, byddai'r Swyddog Monitro yn trafod y goblygiadau gyda'r Cynghorydd yn unigol.

Nodwyd fod deddfwriaeth benodedig yn nodi na allai rhywun sefyll mewn etholiad os oeddent wedi'u carcharu, neu wedi derbyn dedfryd ohiriedig o 3 mis neu fwy o fewn 5 mlynedd i etholiad.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Safonau (Ynys Môn) ei fod wedi gofyn i'r eitem hon gael ei chynnwys ar y rhaglen yn sgil ei brofiad o Gadeirio Gwrandawriad Pwyllgor Safonau yn ddiweddar. Ychydig iawn o wybodaeth ac arweiniad oedd yna ar sut i ddelio â Chynghorydd oedd wedi'i gael yn euog o drosedd.

Nodwyd fod y Cynghorydd dan sylw wedi cyfeirio'i hun at yr Ombwdsmon dan y rhan o'r Cod sy'n ymwneud â dwyn anfri ar swydd Cynghorydd.

Roedd rhaid i bob Aelod ar Ynys Môn dderbyn gwiriadau CRB manylach, a chynghorwyd Arweinwyr Grwpiau ar ba swyddi y gallai Cynghorydd eu cyflawni pe na bai'r gwiriad CRB yn glir.

Yn ogystal, roedd yr achos wedi'i gyfeirio ar y Swyddog Monitro gan yr Ombwdsmon, ac roedd y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu y dylid cynnal Gwrandawriad. Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn, yn ei brofiad o, y byddai'n argymhell mai'r Swyddog Monitro ddylai anfon unrhyw lythyrau yn hysbysu'r Ombwdsmon y byddai Gwrandawriad yn cael ei gynnal.

49. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau ystyried a ddylid cynnal y Fforwm yn gyhoeddus.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i'r cais, ond roeddynt yn credu y byddai'r drafodaeth yn cael ei chyfyngu pe bai'r cyhoedd a Chynghorwyr yn bresennol. Ar ei ffurf bresennol roedd y Fforwm yn caniatáu trafodaeth agored, rhannu arfer gorau a syniadau.

Er hynny, nodwyd bod gan Bwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol ddiddordeb yng ngwaith y Fforwm a chytunwyd y gallai rhaglenni'r Fforwm gael eu cylchredeg i bob Swyddog Monitro ledled Cymru er gwybodaeth.

CYTUNWYD

- (a) **Cadw fformat Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru'r un fath.**
- (b) **Dylid cylchredeg rhaglenni Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i bob Swyddog Monitro ledled Cymru er gwybodaeth.**

50. **UNRHYW EITEM ARALL**

Cafwyd trafodaeth ar fanteision cael Pwyllgor Safonau Rhanbarthol, yn hytrach na Phwyllgor Safonau i bob Awdurdod Lleol unigol.

Y manteision oedd y byddai Aelodau Annibynnol a Chynghorwyr yn ddiuedd ac yn wrthrychol wrth gynnal Gwrandawiadau. Er hynny, yr anfanteision fyddai colli cysylltiad lleol a gwybodaeth leol am faterion mewn ardal.

51. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

CYTUNWYD

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 4 Hydref 2012 am 10.00am ym Modlondeb, Conwy.

(Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am)

Our ref: PT/KS/mm

Ask for: Katrin Shaw


Your ref:

 01656 641182

Date: 17 September 2012

 Katrin.shaw@ombudsman-wales.org.uk

Mr Ken Finch
 Acting Chief Executive
 Conwy County Borough Council
 Bodlondeb
 Conwy
 LL32 8DU



Dear Mr Finch

I thought it would be helpful to contact you in the light of a recent decision of the High Court concerning the Code of Conduct for members.⁶

As you may be aware a member challenged the findings of the Adjudication Panel for Wales to uphold his Council's Standards Committee's decision to censure him for breaching paragraph 4(b) of the code of conduct by failing to show respect and consideration to his fellow Councillors. The court found that whilst the comments which were posted on a website operated by the member were sarcastic and mocking and the tone ridiculed his fellow Councillors, because the majority of the comments related to the way in which the Council was run and the competence of the Councillors, the comments were "political expression". The ruling found that the Panel took an over-narrow view of what amounts to political expression and no account had been taken of the need for politicians to have "thicker skins". In view of the member's entitlement to freedom of expression, and the fact that the majority of comments were directed at fellow Councillors, the finding of a breach of the Code in this case was a disproportionate interference with the member's rights under Article 10 of the European Convention on Human Rights. The Standards Committee's decision to censure the member was therefore set aside.

The impact of this ruling is that my staff will have to apply a higher threshold when deciding whether to investigate any conduct complained about which may be regarded as being "political expression". I will not therefore investigate such cases where 'political' criticisms are made, regardless of the tone of the exchange. Allegations of disrespectful behaviour towards officers, particularly those who may hold senior positions, must also be considered in the light of this ruling.

⁶ Calver, R (On the Application Of) v The Adjudication Panel for Wales (Rev 1) [2012] EWHC 1172 (Admin) (03 May 2012).

I have today issued my revised Guidance on the Code of Conduct which includes the impact of this ruling and other amendments. It is available on my website www.ombudsman-wales.org.uk .

I would be grateful if you would bring this issue to the attention of your members so as to avoid complaints being made which stand no prospect of being investigated in the light of this ruling.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Peter Tyndall', with a stylized flourish at the end.

Peter Tyndall
Ombudsman

Copy: Monitoring Officer

Attendance Note

For Legal Services Manager

Matter reference: C-015386-RWJ
Matter name: North Wales Standards Committees Forum
Attended by: Meirion Jones
Attendance with:

Attendance on:
Recorded on: 04 October 2012
Subject: Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru - Bodlondeb, Conwy
- 4/10/2012

Eitem 1. Ymddiheuriadau – L.B, RWJ, ayyb

Eitem 2. Cofnodion – Mike Wilson yn cywiro para olaf 4.8

Eitem 3 **Cynhadledd.**

Mae hwn i gymryd lle ar 19/04/13.

Delyth Conwy yn dweud bod 'na gyfarfod o Swyddogion Monitro fory [5/10/12] a bydd y 6 Swyddogion Gogledd Cymru yn cyfarfod yn anffurfiol i drafod y mater. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw awgrymiadau. Dyma nhw:-

1. Dywedodd Islwyn Jones [Ynys Môn] am y cynnig oedd wedi cal ei drafod gennym ac sydd yn y nodyn 153158 [bydd copi efo hwn]. Roedd ganddo ei nodiadau ei hun ar ei laptop.

Trafodwyd hyn yn fyr ac fe ddywedodd y Cadeirydd byddai yn ddefnyddiol cael rhywfaint o hanes sefyllfa Sir Fôn oherwydd bod nifer fawr o bobl yn gwybod am rhywfaint o'r manylion ond ddim yr amserlen a'r hanes mewn ffordd strwythuredig (structured). Dywedais rywfaint ynglŷn a'r mater a bod yna wersi i'w dysgu o sefyllfa Sir Fôn ac i godi ymwybyddiaeth (awareness) Pwyllgor Safonau y Cynghorau eraill i hyn.

Gofynnwyd sut byddai'n gallu cymryd y mater ymlaen.

Dywedodd Delyth Conwy eu bod yn cynnal cyfarfodydd

Dywedodd Sion Gwynedd eu bod wedi trefnu rhaglen waith ac yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn o leiaf.

Wrecsam yr un peth.

Parc Cenedlaethol yn deud nad oedd ganddynt llawer o waith ac yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn.

Ynys Môn yn cyfarfod o leiaf pedair gwaith yn ffurfiol.

Dyweddod Islwyn Jones am ei ail gynnig sef –

2. Er mwyn cael cysondeb (consistency) trwy Gymru i gael un ffurflen safonol i Ddatgan Diddordebau gan Aelodau yn y Gofrestr ac i bob un Ffurflen Gofrestru (Registration of Interest Form) (wedi cael ei chwblhau gan Aelod) ei rhoi ar y wefan.

Gofynnodd Swyddog Sir Fflint be oedd yr angen i gael un ffurflen. Dywedodd Islwyn mai cysondeb ac i beidio ail ddyfeisio'r olwyn. Nid oedd cytundeb ynglŷn â hwn. Roedd Trevor o Wrecsam yn meddwl 'os oedd yn gweithio'n ddigon da ac roedd Swyddog Sir y Fflint yn dweud yr un peth. Cynigwyd i'r mater gael ei adael i'r Swyddogion Monitro. Dywedodd Delyth fod 'na rhannu gwybodaeth a syniadau rhwng 22 Cynghorau Cymru felly nid yw'r Cynghorau ar ben ei hunain. Mae'r Swyddogion Monitro yn gweithio'n agos efo'i gilydd.

Cytunwyd i'r y mater fynd i'r Swyddogion Monitro. Mi ddywedwyd fod bob un Pwyllgor Safonau yn wahanol; mae rhai hefo whistleblowing ayyb.

3. Cynnig gan y Parc - gofyn am “breakout groups” yn y gynhadledd a bod 'na un yn arbennig i Awdurdodau efo un pwrpas (single purpose) sydd yn effeithio arnynt i gael trafod materion.
4. Trafodwyd beth oedd wedi digwydd yn y Cynadleddau cynt. Cynnig peidio cael “play acting” y tro nesaf ond iddo ddigwydd rhywbryd eto.
5. Dywedodd Trevor (Wrecsam) fod eu Pwyllgor Safonau yn poeni am y cwynion lefel isaf oherwydd “annibyniaeth” y personau sy'n delio efo'r mater a bod yr Ombwdsmon oleiaf yn annibynnol. Rhoddodd Mike ac Islwyn wybodaeth ynglŷn â threfn Sir Fôn, ac fe wnes i egluro ychydig am y broses.
6. Dywedodd y Cadeirydd dylai'r mater gael ei ysteried gan y chwe Swyddog Monitro yn y cyfarfod y diwrnod wedyn ac i bob un Cyngor / Pwyllgor Safonau rhoi materion i'r rhaglen i'w Swyddog Monitro lleol.
7. Cynigwyd bod amseroedd y Gynhadledd o 10:30 i 5 nid 9 tan 3. Pryd mae'r trenau?! Tua 120 wedi mynychu troeon o'r blaen.

Eitem 4. **“Ombwdsmon’s Guidance”**. Eglurodd Delyth rywfaint o'r cefndir a bod yna cryn dipyn o consyrn ynglŷn a'r dyfarniad ei hun [Calver] a hefyd ymateb yr Ombwdsmon trwy ei Gyfarwyddyd/Canllawiau (Guidance).

Defnyddiwyd sylwadau fel “free-for-all-in behaviour”. Ond dywedodd Delyth fod yna sialens gyfreithiol yn cael ei hystyried. Dywedodd Trevor ei fod yn poeni am “assertive Members” yn ei ddarllen.

Dwedodd Sion Gwynedd - hwyrach na fyddai Cynghorwyr yn cael eu dal gan drefn yr Ombwdsmon ond byddant yn cael eu dal gan y protocol lleol. Bu achos diweddar ynglŷn â rhai sylwadau ar y blog ond roedd yr achos yna yn wahanol oherwydd roedd y ffeithiau'n anghywir, nid barn oedd o.

Teimlo bod yr Ombwdsmon yn osgoi'r materion - “copped out”. Dywedodd Islwyn ei fod yn poeni bod hyn yn tanseilio protocolau lleol hefyd.

Cynigwyd gan y Cadeirydd i'r cyfarfod ysgrifennu at yr Ombwdsmon ond gofynnodd Delyth i'r Fforwm aros i'r Swyddogion Monitro gyfarfod y diwrnod wedyn i drafod y mater. A chytunwyd ar hynny.

Soniodd Islwyn am "threshold" ac wrth gwrs bod hwnnw'n dal yno er ei fod o hwyrach yn uwch.

Trefnu cyfarfod nesaf dydd Llun 7 Ionawr 2013 am 2 o' gloch i drafod trefniadau'r Gynhadledd a materion eraill e.e. ymateb y Swyddogion Monitro i Ganllawiau/Guidance yr Ombwdsmon.

Fe gynigais i ddyddiad cyfarfod y Fforwm ddilyn dyddiad cyfarfod y Swyddogion Monitro oherwydd bod o'n bwysig i'r Fforwm gael gwybod am faterion/penderfyniadau'r Swyddogion Monitro, i'w trafod yn y Fforwm.